

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a
Sgiliau

Gradd Brentisiaethau
EIS(5)DA02

Ymateb gan Prifysgol Metropolitan
Caerdydd

National Assembly for Wales
Economy, Infrastructure and Skills
Committee

Degree Apprenticeships

Evidence from Cardiff Metropolitan
University

Ymchwiliad i Brentisiaethau Gradd: Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Dewch o hyd i'n hymatebion i'r cwestiynau a ofynnir gan y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau:

Cwestiwn 1: A oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg yn ystod cyflwyno prentisiaid gradd a pha wersi y gellir eu dysgu o'u cyflwyno?

Ymateb:

Mae amseriad cymeradwyo ceisiadau yn darparu ffenestr fach iawn i'r cyflogwr i recriwtio cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, wedi'i waethygu gan y gofyniad i ddarparu tystiolaeth o alw ac ymrwymiad cyflogwyr. Mae hyn wedi golygu nad yw prifysgolion wedi gallu gwarantu'r cyllid gan ohirio recriwtio prentisiaethau mewn rhai achosion.

Cwestiwn 2: A ddefnyddiwyd y broses a'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo cynigion gan ddarparwyr i ddarparu prentisiaethau gradd yn foddhaol?

Ymateb:

Achosodd y newid yn yr awdurdod cyhoeddi o'r Bartneriaeth Tech i Instructus oedi diangen. Roedd angen cymeradwyo fframweithiau cyn y gellid dilysu'r

radd ei hun. Fodd bynnag, roedd y cyngor a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan y Bartneriaeth Tech yn ddefnyddiol iawn. Roedd y meini prawf ar gyfer cymeradwyo cynigion yn foddhaol ac yn darparu fframwaith ar gyfer dylunio'r rhaglen.

Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ar y galw am brentisiaethau gradd a sut y dylid rheoli'r galw hwnnw, o ran yr ystod o fframweithiau a'r galw gan gyflogwyr a dysgwyr?

Ymateb:

Mae'r galw am brentisiaethau gradd yn cynyddu mewn meysydd a sectorau y tu allan i weithgynhyrchu digidol ac uwch, yn enwedig lle mae gan gyflogwyr agenda sgiliau cenedlaethol (cyflogwyr sy'n talu ardoll). Mae'r cyfle i'r cyflogwyr hyn gael gafael ar gyllid yn Lloegr mewn meysydd galwedigaethol y tu allan i'r rhai a ariennir yng Nghymru yn her o ran recriwtio ac uwchsgilio. Mae'r cyfleoedd a'r gweithgareddau sy'n digwydd ledled y DU yn rhoi syniad o'r angen am ystod ehangach o fframweithiau yng Nghymru.

Yn yr un modd, mae'r dull a gymerwyd yn Lloegr i ehangu'r cyfle cyllido i brentisiaethau gradd Lefel 7 wedi arwain at gynnydd mewn ymholiadau gan ddysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru, yn enwedig mewn gwasanaethau ieuchyd, busnes a phroffesiynol, lle mae achredu corff proffesiynol yn orfodol ac wedi'i achredu trwy Lefel 7. Mae'r rhain hefyd yn adlewyrchu'r lefelau uchaf o ddarpariaeth brentisiaeth uwch yng Nghymru. Yn ogystal, bydd y cynnig Lefel 7 yn galluogi dilyniant ar gyfer y fframweithiau prentisiaeth gradd ddigidol bresennol.

Mae'r galw yn seiliedig ar dystiolaeth, a nodwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn sicrhau bod gofynion cyflogwyr yn y dyfodol yn cael eu diwallu. Dylid ystyried lefel y fframweithiau prentisiaeth uwch unigol sy'n cael eu

cwblhau ac sy'n cael eu darparu yng Nghymru hyd yn hyn, fel arwydd o'r galw a'r cyfleoedd dilyniant.

Cwestiwn 4: I ba raddau y dylid cynnwys gweithgaredd sydd wedi'i anelu at ehangu mynediad wrth recriwtio prentisiaeth gradd, a sut y gellir defnyddio hyn i sicrhau bod carfannau'n gynrychioliadol?

Ymateb:

Mae recriwtio a dewis prentisiaethau gradd yn gystadleuol iawn; hyd yma mae lefel yr ymgeiswyr wedi rhagori ar nifer y swyddi gwag felly mae'n hanfodol bod cyflogwyr yn cael eu hannog i gefnogi'r agenda ehangu mynediad wrth recriwtio'r ymgeisydd mwyaf addas. I gefnogi hyn, dylai hyrwyddo prentisiaethau gradd fel opsiwn i'r rhai sy'n gymwys annog a chefnogi diddordeb dysgwyr anhraddodiadol. Fodd bynnag, er y gall prifysgolion gefnogi hyrwyddo prentisiaethau gradd sy'n cynnwys ehangu mynediad, mae recriwtio a dewis yn ôl disgresiwn y cyflogwr ac yn cael ei yrru gan ddull a strategaeth cyflogwyr unigol ar gyfer denu ymgeiswyr o'r grwpiau hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithle.

Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau ar gost prentisiaethau gradd, sut mae prentisiaethau gradd yn cael eu hariannu a lefel y cyllid a ymrwymir iddynt?

Ymateb:

Er bod y model cyflwyno ar gyfer prentisiaethau gradd yn wahanol i radd israddedig amser llawn draddodiadol, mae lefel y gefnogaeth ddysgu ac

addysgu yn deg, felly dylai lefel y cyllid sydd wedi'i ymrwymo iddynt ar hyn o bryd aros. Mae'n briodol ac yn deg bod cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail unrhyw eithriadau Cydnabod Dysgu Blaenorol.

Cwestiwn 6: Sut mae'r peilot prentisiaeth gradd wedi effeithio ar brentisiaethau lefel eraill, os o gwbl?

Ymateb:

Mae'r brentisiaeth gradd Gwyddor Data wedi darparu llwybr dilyniant o'r brentisiaeth Lefel 4 uwch mewn Dadansoddeg Data. Mae'r brifysgol wedi gweithio ochr yn ochr â'r darparwr prentisiaeth i nodi cyflogwyr a darpar ddysgwyr sydd â diddordeb mewn dilyn y cyfle dilyniant hwn. Gall dysgwyr ddefnyddio'r credydau hyn i fynd i mewn i'r brentisiaeth gradd yn yr ail flwyddyn (Lefel 5).

Mae alinio cymwysterau sy'n ffurfio fframwaith prentisiaeth ar Lefelau 3 a 4 yn hanfodol er mwyn i'r dysgwr ddeall y llwybr dilyniant i brentisiaeth gradd ac i'r brifysgol allu paru cynnwys rhaglenni ar y lefel nesaf, â'r hyn a addysgir trwy'r fframwaith prentisiaeth.

Cwestiwn 7: A ddylai unrhyw agwedd ar y dull o ddarparu prentisiaethau gradd newid ac os felly, beth ddylai fod y cyfeiriad yn y dyfodol?

Ymateb:

Dim newid yn y dull o gyflawni. Amlygir cyfeiriad yn y dyfodol mewn ymatebion blaenorol.

